AC-09-00 (min)

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 7 Rhagfyr 2000

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

**Yn bresennol**

**Aelodau**

Janet Davies (Cadeirydd) Gorllewin De Cymru

Alun Cairns Gorllewin De Cymru

Christine Chapman Cwm Cynon

Janice Gregory Ogwr

Alison Halford Delyn

Peter Law Blaenau Gwent

Owen John Thomas Canol De Cymru

Dafydd Wigley Caernarfon

**Swyddogion**

Sir John Bourn Archwilydd Cyffredinol Cymru

Frank Grogan Swyddfa Archwilio Cenedlaethol

Dave Powell Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad

Julie Bragg Clerc Dros Dro y Pwyllgor

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Kirsty Williams.

**Eitem Agenda 1 : Sesiwn Casglu Tystiolaeth**

**Papurau:** AC-09-00 (p.1)

1.1 Casglwyd tystiolaeth gan y Pwyllgor mewn perthynas ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sef *Mwynhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau* ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd 2000.

**Tystion**

Mr George Craig Uwch Gyfarwyddwr, Polisi Cymdeithasol a Materion Llywodraeth Lleol, Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru, NHS Cymru

Mrs Sarah Beaver Pennaeth Is-adran Cyllid yr NHS, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mr Barrie Wilcox Pennaeth Yr Is-adran Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1.2 Bydd trawsgript gair-am-air o'r eitem hon yn cael ei hatodi i'r cofnodion hyn.

**Eitem Agenda 2 : Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**Papur:** AC-08-00 (cofnodion)

2.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

2.2 Tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at y ddau bapur i'w nodi ar gyfer y cyfarfod mewn perthynas ag adroddiad ar gynnydd ar faterion ariannol yn Rhaglen Arholiadau Gwerth am Arian NHS Cymru Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2001-2002. Dywedodd bod adroddiadau'r Pwyllgor ar Awdurdod Datblygu Cymru a Choleg Gwent wedi'u cyhoeddi yn ystod y pythefnos diwethaf a'u bod wedi creu diddordeb mawr yn y wasg.

2.3 Roedd darpariaeth Rheol Sefydlog 12.7 a oedd yn golygu bod aelodau pwyllgorau pwnc penodol yn cael eu hatal rhag cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio wedi arwain at anawsterau cynyddol o ran nodi aelodau'r Cynulliad oedd yn gymwys i gymryd rhan yn sesiynau penodol o'r Pwyllgor Archwilio. Roedd papur yn gofyn am ddileu'r Rheol Sefydlog i'w ystyried felly gan Bwyllgor Busnes y Cynulliad ar 12 Rhagfyr.

2.4 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio ar 25 Ionawr 2001 yn canolbwyntio unwaith eto ar adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol sef *Mwynhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau*. Fodd bynnag, byddai'r tystion y tro hwn yn cynrychioli'r proffesiwn fferyllol ac yn gallu ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad o safbwynt yr ymarferydd.

2.5 Codwyd mater gan yr aelodau ynglyn â'r ffaith nad y tystion yn y sesiwn hon o'r Pwyllgor, na'r sesiwn ddiwethaf, oedd wedi gweithredu'r camau a oedd yn sail i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Eglurodd yr Archwilydd Cyffredinol mai'r Swyddog Cyfrifo presennol oedd y prif dyst fel arfer a'i fod yn bosibl, yng Nghymru, i'w alw i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Archwilio o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru. Pan ddechreuodd y person hwnnw yn ei swydd, cymerodd ef neu hi gyfrifoldeb dros yr hyn oedd wedi digwydd ynghynt yn ogystal â'r awdurdod a'r cyfrifoldeb i ddwyn unrhyw gamau yn eu blaenau yn sgîl ystyriaeth y Pwyllgor o'r adroddiad dan sylw. Dylai'r Swyddog Cyfrifo fod yn bresennol mewn sesiwn casglu tystiolaeth wedi'i gefnogi gan dystion eraill oedd yn meddu ar wybodaeth weithredol fanwl o'r materion a godwyd. Os, am unrhyw reswm, na fyddai'r Swyddog Cyfrifo yn gallu ymateb i gwestiwn yn y gwrandawiad, gallai ef neu hi gynnig nodyn neu gallent gael eu gwahodd yn ôl ar ddyddiad diweddarach. Yn San Steffan roedd y Pwyllgorau Cyfrifau Cyhoeddus yn gallu gwahodd Swyddogion Cyfrifo blaenorol i fod yn bresennol fel tystion, ond ni chafodd hyn ei wneud yn aml. Fodd bynnag, yng Nghymru, gosododd y Pwyllgor Archwilio gynsail gyda'i ystyriaeth o faterion Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chwmni Datblygu Bae Caerdydd trwy wahodd Swyddogion Cyfrifo blaenorol i fod yn bresennol. Roedd y Pwyllgor Archwilio yn gallu gosod ei weithdrefnau ei hun. Cynigodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor ystyried priodoldeb y mater hwn o sesiwn i sesiwn, gan ddibynnu ar yr adroddiad penodol i'w ystyried ganddynt.

2.6 Daeth y cyfarfod i ben am 4.25pm.